Cynllunio a sefydlu archwiliad amgylcheddol sefydliadol

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio'r gofynion sgiliau a gwybodaeth ar gyfer cynllunio a sefydlu archwiliad amgylcheddol sefydliadol.  Mae'n cynnwys y gwaith paratoi sydd yn ofynnol i gynnal archwiliad amgylcheddol.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer:

- Rheolwr â chyfrifoldeb dros reolaeth a/neu gynaliadwyedd amgylcheddol
- Perchennog/rheolwr busnes sydd eisiau gwella perfformiad amgylcheddol y sefydliad
- Cydlynydd systemau reoli amgylcheddol neu gyfwerth
- Archwilydd amgylcheddol
- Ymgynghorydd sydd yn rhoi cyngor amgylcheddol.

Mae'r safon hon yn cynnwys y gwaith paratoi sydd yn ofynnol i gynnal archwiliad amgylcheddol sefydliadol effeithiol, gan ystyried yr adnoddau, yr amcanion archwilio a'r dulliau cyfathrebu sydd yn ofynnol.

Mae'n rhaid i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â chynllunio a sefydlu archwiliad amgylcheddol sefydliadol ystyried cyfrifo carbon ac Asesiadau Cylch Bywyd y cynnyrch, gwasanaethau, a'r gweithgareddau y mae'r sefydliad yn eu cynnig.  Bydd hyn yn cynnwys asesu ôl troed carbon y cynnyrch a'r gwasanaethau.  Mae angen i sefydliadau fod yn atebol am y ffordd y maent yn reoli eu heffaith ar yr amgylchedd, mae angen iddynt ddod yn fwy cynaliadwy.  Mae angen i'r sefydliad edrych ar eu heffaith o ran carbon ar lefel fyd-eang yn ogystal â lefel leol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys asesu effaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi amcanion yr archwiliad amgylcheddol sefydliadol a nodi beth yw mesurau llwyddiant
2. Sefydlu'r rhanddeiliaid perthnasol i gysylltu â nhw yn ystod y broses archwilio, yn cynnwys y rheiny o'r nodweddion gwarchodedig
3. Cynllunio a sefydlu'r cyfrifoldebau a'r adnoddau sydd yn ofynnol i gynnal yr archwiliad amgylcheddol sefydliadol
4. Cynllunio a sefydlu'r technegau archwilio sydd yn ofynnol i gyflawni amcanion yr archwiliad a phennu a yw'r sefydliad yn bodloni'r mesurau y cytunwyd arnynt
5. Sefydlu dulliau cyfathrebu addas yn ystod ac ar ôl y broses archwilio
6. Cyfathrebu amcanion yr archwiliad gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys y rheiny o nodweddion gwarchodedig
7. Sefydlu'r ffynonellau gwybodaeth i'w defnyddio yn ystod y broses archwilio
8. Cadarnhau bod yr amcanion archwilio yn realistig ac yn bodloni gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Sut i sefydlu amcanion yr archwiliad amgylcheddol sefydliadol a'r mesurau llwyddiant
2. Y rhanddeiliaid perthnasol, yn cynnwys y rheiny o'r nodweddion gwarchodedig, i gysylltu â nhw yn ystod y broses archwilio
3. Sut i gynllunio a sefydlu'r cyfrifoldebau a'r adnoddau sydd yn ofynnol i gynnal yr archwiliad amgylcheddol sefydliadol
4. Y mathau gwahanol o archwiliadau amgylcheddol
5. Rôl archwiliadau amgylcheddol a sefyllfaoedd lle maent yn berthnasol
6. Y cyfnodau yn y broses archwilio amgylcheddol
7. Y technegau archwilio i gael eu defnyddio a'r rhesymau dros eu dewis
8. Sut i bennu mesurau llwyddiant ac asesu a yw sefydliad yn bodloni'r mesurau y cytunwyd arnynt
9. Yr agweddau hynny o'r sefydliad i gael eu harchwilio a ffynonellau gwybodaeth
10. Sut i nodi a chael unrhyw arbenigedd archwilio ychwanegol pan fo angen
11. Y dulliau o gysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod ac ar ôl y broses archwilio
12. Sut i ddiffinio'r lefel berthnasol o gyswllt ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol

Cynllunio a sefydlu archwiliad amgylcheddol sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEM7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr, Rheolwr Amgylcheddol, Perchennog/Rheolwr, Swyddog Rheolaeth Amgylcheddol, Ymgynghorydd Amgylcheddol, Archwilydd Amgylcheddol, Cydlynydd Systemau Rheoli Amgylcheddol |
| **Cyfres/Set** | Ymwybyddiaeth a Rheolaeth Amgylcheddol Sefydliadol |
| **Geiriau Allweddol** | effaith; llygredd; hinsawdd; |